Medi 2021

Astudiaeth Achos

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Safon Iechyd Corfforaethol Aur Cymru Iach ar Waith

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflogi 1900 o staff mewn 50 o safleoedd ledled Cymru. Mae'n bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant poblogaeth Cymru a lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd, a'i gweledigaeth yw creu Cymru iachach, hapusach a thecach. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhan o'r GIG ac yn atebol i Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae'n gweithio'n lleol, yn genedlaethol, a gyda phartneriaid ar draws cymunedau.

Mae ein rôl fel asiantaeth iechyd cyhoeddus genedlaethol Cymru yn golygu ein bod wedi bod yn rhan flaenllaw o'r gwaith o reoli'r ymateb i'r pandemig a'n bod wedi gorfod ymateb yn gyflym ar ddiwedd mis Ionawr 2020. Cydnabuwyd bod angen timau o bob rhan o'r sefydliad i gefnogi'r ymateb i'r pandemig. Fis yn ddiweddarach, yn dilyn yr achos positif cyntaf o COVID-19 yng Nghymru, cafodd y cymorth hwn ei gynyddu'n gyflym, a heblaw am rai adrannau hanfodol o'r busnes, hwn oedd unig flaenoriaeth y sefydliad.

Uchafbwyntiau

- Fel sefydliad arweiniol ar gyfer yr ymateb i'r pandemig yng Nghymru, bu'n rhaid i ni addasu'n gyflym, er enghraifft drwy ddarparu amgylchedd gweithio diogel i'n staff.
- Gwnaethom gyflwyno adnodd asesu risg personol i bob aelod o'r staff er mwyn nodi ac ymateb i anghenion y rhai yr oedd COVID-19 yn fwy tebygol o effeithio arnynt.
- Mae llawer o'r staff wedi parhau i ddod i'r gweithle i gyflawni'r ymateb i'r pandemig, felly gwnaethom roi mesurau hylendid a chadw pellter corfforol diogel ar waith yn gyflym.
- Rydym wedi cyfathrebu ac ymgysylltu'n fwy â'r staff, gan gynnwys ceisio adborth drwy arolwg staff, ac wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.
- Lansiwyd ymgyrch 'Sut wyt ti?' Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi pobl Cymru, gan gynnwys ein staff, a gwnaethom hefyd gyflwyno sesiynau llesiant i'r staff bob dydd Mercher.
- Rydym wedi comisiynu asesiad annibynnol o barodrwydd ein gweithle ar gyfer COVID-19 er mwyn dysgu unrhyw wersi.
- Rhoddodd yr arferion llesiant cyflogeion a roddwyd ar waith o ganlyniad i fod yn rhan o broses Cymru Iach ar Waith sylfaen gadarn i ni ymateb i anghenion ein cyflogeion yn ystod y pandemig.
- Mae ein profiad o ymateb i'r pandemig wedi rhoi cipolwg i ni ar sut beth y gallai'r gweithle fod yn y dyfodol, ac wedi ein galluogi i baratoi ar gyfer ffyrdd newydd o weithio.

Astudiaeth Achos

Gweithio gartref

Gofynnwyd i'r staff weithio gartref yn unol â chyngor y llywodraeth, pan nad oeddent yn gweithio yn y ganolfan ymateb genedlaethol. Gofynnwyd i bob aelod o'r staff gwblhau asesiad risg unigol bob chwe mis er mwyn nodi'r rhai hynny a allai fod yn agored i niwed, fel y gellid nodi a chefnogi staff a oedd yn wynebu mwy o risg o ddatblygu symptomau mwy difrifol pe baent yn dal feirws COVID-19.

Mae'r staff wedi llwyddo i gael benthyg cyfarpar TG i'w galluogi i weithio gartref, a gofynnir iddynt gwblhau asesiad Cyfarpar Sgrin Arddangos er mwyn sicrhau bod ganddynt weithfan addas gartref. Mae cyflwyniad wedi'i lunio i ddangos sut y gellir gwneud hyn a gall unrhyw un y mae angen cymorth ychwanegol arno gysylltu ag asesydd Cyfarpar Sgrin Arddangos hyfforddedig.

Mae rhestr o Gwestiynau Cyffredin wedi'i llunio er mwyn ateb unrhyw gwestiynau a all fod gan y staff am drefniadau gweithio gartref yn y dyfodol, yn ogystal â chanllawiau i gyflogeion a rheolwyr ar weithio gartref.

Cyfathrebu

Diwygiwyd tudalennau gwybodaeth i staff er mwyn cynnwys cwestiynau cyffredin a gwybodaeth yn ymwneud yn benodol â COVID-19, a chawsant eu symud o'n mewnrwyd i'r rhyngrwyd fel ei bod yn haws i'r staff hynny nad oes ganddynt fynediad i'r fewnrwyd gartref gael gafael arnynt.

Argymhellwyd na ddylid trefnu unrhyw gyfarfodydd wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid allanol ar unrhyw un o'n safleoedd, ac mae hysbysiad ar ddrysau ystafelloedd cyfarfod sy'n dangos nifer y bobl a ganiateir mewn cyfarfodydd mewnol fel y gellir cadw pellter cymdeithasol. Darparwyd Microsoft Teams i bob aelod o'r staff er mwyn cefnogi gwaith cydweithredol a gwaith tîm gwell, ac mae'r llwyfan hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarfodydd rhithwir.

Cyflwyno arferion gweithio diogel

Sefydlwyd arferion gweithio diogel yn gyflym yn y tair canolfan gyswllt ranbarthol, er mwyn ceisio lleihau'r posibilrwydd y byddai'r haint yn cael ei ledaenu. Mae'r mesurau hyn wedi cael eu mireinio a'u gwella dros amser yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau ac Iechyd a Diogelwch wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein gweithleoedd yn ddiogel i bob aelod o'r staff. Mae hyn yn cynnwys symud cyfarpar TG oddi ar rai desgiau er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol, clirio eitemau personol oddi ar bob desg fel bod modd eu glanhau'n hawdd ac i eraill eu defnyddio, sicrhau bod y staff yn glanhau eu desgiau a'r ardal o'u hamgylch cyn ac ar ôl eu defnyddio, a darparu cynhyrchion glanhau a chyfarpar diheintio dwylo.

Ymhlith y mesurau eraill mae systemau unffordd wedi'u hategu gan ddrysau sydd wedi'u hailraglennu fel eu bod ond yn agor un ffordd, hysbysiadau a marciau llawr, a grisiau unffordd yn ogystal â chyfyngu ar nifer y bobl a all ddefnyddio'r lifftiau a'r toiledau i un person ar y tro (gan ddefnyddio côn bach i ddangos pan fydd rhywun yn yr olaf).

"Mae ein profiad o ymateb i'r pandemig wedi rhoi cipolwg i ni ar sut beth y gallai'r gweithle fod yn y dyfodol, ac wedi ein galluogi i baratoi ar gyfer ffyrdd newydd o weithio."

Astudiaeth Achos

Llesiant cyflogeion

Gwnaethom lansio ymgyrch llesiant newydd i fynd i'r afael ag effaith negyddol COVID-19 ar lesiant meddyliol, corfforol a chymdeithasol pobl yng Nghymru. Crëwyd ymgyrch 'Sut wyt ti?' er mwyn cefnogi pobl Cymru i ofalu am eu llesiant a diogelu iechyd y cyhoedd yn ystod y cyfnod ynysu. Mae'n cynnwys cyngor a gwybodaeth a dolenni i becynnau cymorth a gwasanaethau cymorth. Cafodd yr ymgyrch hon ei hyrwyddo i'r staff drwy dudalennau gwe Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ochr yn ochr â hynny, gwnaethom lansio menter fewnol newydd i gefnogi llesiant y staff drwy gynnal sesiynau llesiant bob dydd Mercher. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio'r staff at adnoddau yr ymddiriedir ynddynt gan ganolbwyntio ar themâu gwahanol bob wythnos, a chyfleoedd i'r staff ofyn cwestiynau a chymryd rhan. Rydym wedi arolygu'r staff er mwyn gofyn iddynt sut maent yn teimlo, ac rydym wedi sefydlu Grŵp Partneriaeth Llesiant ac Ymgysylltu er mwyn cefnogi arweinwyr cyfarwyddiaethau/is-adrannau i ddatblygu a chydgysylltu eu hymateb i lesiant a llais cyflogeion.

Dangosodd yr arolwg cyflogeion fod cyflogeion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu bod yn gwybod ble i fynd am gymorth, eu bod yn hapus gyda lefel y cyfathrebu a'r sianeli cyfathrebu, a'u bod wedi cael eu galluogi i sicrhau cydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd. Fodd bynnag, mae lle i wella o hyd a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r staff a nodi meysydd i'w gwella.

Gwersi a ddysgwyd

Fel sefydliad sy'n gyfrifol am arwain yr ymateb i COVID-19 yng Nghymru, rydym wedi gorfod addasu'n gyflym, gan sicrhau ein bod yn arwain drwy esiampl ac yn darparu amgylchedd gweithio diogel i'n staff ar yr un pryd. Rydym wedi cyfathrebu ac ymgysylltu'n fwy â'n staff ac wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Rydym wedi comisiynu asesiad annibynnol o barodrwydd ein gweithle ar gyfer COVID-19 er mwyn dysgu unrhyw wersi.

Roedd yr arferion llesiant cyflogeion a oedd eisoes wedi'u sefydlu ym mhob rhan o'n sefydliad o ganlyniad i fod yn rhan o raglen Cymru Iach ar Waith yn golygu ein bod wedi achub y blaen a bod gennym sylfaen gadarn i ymateb i anghenion ein cyflogeion. Mae'r ffaith bod gennym fframwaith llesiant ffurfiol ar waith wedi ein galluogi i gynnig amrywiaeth o rwydweithiau cymorth i'n staff ac i fod yn barod i gefnogi eu hanghenion yn y ffordd orau posibl yn y dyfodol.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflogi 1900 o staff mewn 50 o safleoedd ledled Cymru.